**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 ac rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie Morgan
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
20 Chwefror 2020

**RHAN 1**

**1. Disgrifiad**

Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau Diwygio") a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd o hyn ymlaen fel "y Rheoliadau hyn") yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") drwy:

- roi Rhan 4 newydd (Dyletswyddau Asiantaeth Fabwysiadu o ran Darpar Fabwysiadydd) yn lle'r un bresennol er mwyn:

    - gwneud darpariaeth ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr gan asiantaethau mabwysiadu drwy gyflwyno proses newydd, sydd â dau gam a chyfyngiad amser, ar gyfer asesu a chymeradwyo. Gellir estyn y broses hon o dan amgylchiadau penodol. Yn ystod cam un (y broses cyn asesu, sydd wedi'i chyfyngu i gyfnod o ddau fis), cynhelir yr holl wiriadau rhagnodedig, gan gynnwys gwiriadau cofnodion troseddol a gwiriadau iechyd. Yn ystod cam dau (y penderfyniad asesu, sydd wedi'i gyfyngu i gyfnod o bedwar mis), mae'r asiantaeth fabwysiadu'n dod i benderfyniad ynglŷn â pha mor addas yw'r darpar fabwysiadydd.

    - cyflwyno proses garlam i ganiatáu i fabwysiadwyr blaenorol penodol neu rieni maeth fwrw ymlaen yn syth i broses asesu cam dau.

- mewnosod gofyniad ar asiantaethau mabwysiadu i atgyfeirio plentyn at Gofrestr Fabwysiadu Cymru o fewn un mis i'r dyddiad y cafodd yr asiantaeth fabwysiadu ei hawdurdodi i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu. Bydd gofyn iddynt hefyd atgyfeirio darpar fabwysiadydd at y Gofrestr Fabwysiadu o fewn un mis i'r dyddiad y cadarnhaodd yr asiantaeth fod y darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

- esbonio nad yw'r gofyniad ar asiantaeth fabwysiadu i ofyn am swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAFCASS i fod yn dyst i gydsyniad gan riant neu warcheidwad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn ei ofal ond yn gymwys pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn preswylio yng Nghymru a Lloegr.

- ei gwneud yn ofynnol i asiantaeth fabwysiadu drefnu i benodi person awdurdodedig i fod yn dyst i gydsyniad rhiant neu warcheidwad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn ei ofal, pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â rheoliadau a ddaw i rym ym mis Ebrill 2020.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi gwneud y Rheoliadau hyn wedi'u cynnwys mewn nifer o adrannau yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- adran 9(1)(a) sy'n caniatáu rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â phan fo awdurdodau lleol neu asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yn arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â mabwysiadu.

- adran 11(2) sy'n caniatáu rheoliadau o dan adran 9 i ragnodi'r ffioedd y caiff awdurdodau lleol eu codi mewn perthynas â darparu cyfleusterau rhagnodedig y Gwasanaeth Mabwysiadu pan fo'r amodau yn is-adran (3) wedi'u bodloni.

- adran 12 sy'n caniatáu rheoliadau o dan adran 9 i sefydlu gweithdrefn sy'n caniatáu i unrhyw berson y mae asiantaeth fabwysiadu wedi gwneud dyfarniad o gymhwyster yn ei gylch wneud cais i banel annibynnol am adolygiad o'r dyfarniad hwnnw.

- adran 45(1) sy'n caniatáu rheoliadau o dan adran 9 i wneud darpariaeth ynghylch y materion y mae asiantaeth fabwysiadu i'w hystyried wrth benderfynu addasrwydd unrhyw bersonau i fabwysiadu plentyn, neu wrth wneud unrhyw adroddiad ynglŷn â'u haddasrwydd. Mae is-adran (2) yn darparu, yn benodol, y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth er mwyn sicrhau, wrth benderfynu addasrwydd cwpl i fabwysiadu plentyn, y rhoddir sylw priodol i'r angen am sadrwydd a sefydlogrwydd yn eu perthynas. Defnyddir y pŵer hwn, sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, i wneud Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 i'w gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu, wrth asesu addasrwydd cwpl i fabwysiadu, roi sylw priodol i'r angen am sadrwydd a sefydlogrwydd yn eu perthynas.

- adran 54 sy'n caniatáu rheoliadau o dan adran 9 i'w gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu, o dan amgylchiadau rhagnodedig, ddatgelu gwybodaeth ragnodedig i ddarpar fabwysiadwyr yn unol â'r rheoliadau.

- adran 83(4) a (5) sy'n caniatáu rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i berson sy'n bwriadu dod â phlentyn, neu'n peri bod rhywun arall yn dod â phlentyn, i'r Deyrnas Unedig o dan amgylchiadau ac amodau penodol gael ei asesu a'i gymeradwyo gan asiantaeth fabwysiadu fel rhywun addas i fabwysiadu.

Defnyddir hefyd y pŵer yn adran 174(7) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu gweithdrefn sylwadau er mwyn ystyried sylwadau (gan gynnwys cwynion) gan bersonau penodol ac mae is-adran (7) yn caniatáu rheoliadau i wneud darpariaeth bellach ynglŷn â'r weithdrefn honno.

Trosglwyddwyd y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn rhinwedd adran 140(3)(a) o Ddeddf 2002 (sy'n darparu nad yw offeryn statudol sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth o dan adran 9 sy'n cynnwys darpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 45(2) i'w wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron dau dŷ Senedd y Deyrnas Unedig a'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad) a pharagraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol eraill a nodir yn Atodlen 1 gan gynnwys gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010, sy'n gwneud darpariaeth i'r adolygiad o benderfyniadau penodol gan asiantaethau mabwysiadu a darparwyr gwasanaethau maethu gael ei gynnal gan banel annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru. Gwneir diwygiadau hefyd i Reoliadau Mabwysiadau ag Elfen Dramor 2005 (sy'n gymwys i Gymru a Lloegr) er mwyn sicrhau bod y broses asesu mabwysiadydd trawswladol yn gyson â'r broses yn Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn.

Mae Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau i destun Cymraeg Rheoliadau 2005 lle na chafodd y rhain eu cyflwyno'n flaenorol gan Orchymyn Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2009 a Gorchymyn Gorchymyn Trefniadau Plant (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2014.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud newidiadau i'r broses o gymeradwyo darpar fabwysiadydd yng Nghymru. Cafodd Rhan 4 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005[1] (a oedd yn ymdrin â dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu mewn perthynas â darpar fabwysiadwyr yn Lloegr) ei disodli gan ddarpariaeth yn Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygiadau Amrywiol) 2013[2]

[1] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2005/389/pdfs/uksi_20050389_en.pdf
[2] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/985/pdfs/uksi_20130985_en.pdf

("Rheoliadau 2013"). Newidiodd hyn y broses gymeradwyo mewn perthynas â Lloegr a chaniatáu proses dau gam. Yng Nghymru, bydd Rhan 4 o Reoliadau 2005 yn cael ei disodli gan Ran 4 newydd er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer proses gymeradwyo newydd sydd â dau gam ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr.

Mae'r Grŵp Technegol Mabwysiadu yng Nghymru, a gyfarfu bedair gwaith rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2017, ac yn enwedig y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, wedi gofyn i Lywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn cyflwyno proses dau gam debyg ar gyfer Cymru. Yn ei hanfod, byddai'r newid hwn yn galluogi asiantaeth fabwysiadu i wneud penderfyniad cynnar i 'beidio â bwrw ymlaen' â chais llawn unigolyn i ddod yn fabwysiadydd os oedd wedi casglu gwybodaeth – er enghraifft, o adroddiad meddygol sy'n dangos problem ddifrifol – sy'n dangos yn glir nad oedd yr unigolyn penodol hwnnw yn berson addas i fabwysiadu plentyn. Byddai'n golygu, mewn achosion o'r fath, na fyddai bellach rwymedigaeth gyfreithiol i fwrw ymlaen at ystyriaeth panel llawn o gais sy'n amlwg yn anaddas cyn y gellid ei hidlo allan o'r broses. Bydd y newid yn cyflwyno'r 'adroddiad cryno' lle y gall darpar fabwysiadydd, yn ystod cam dau o'r broses asesu, gael ei gyflwyno i banel a Phenderfynwr yr Asiantaeth gydag argymhelliad nad yw'n addas i fabwysiadu, er nad yw'r asesiad llawn wedi'i gwblhau. Bydd y newidiadau hefyd yn cyflwyno proses garlam i asesu rhieni sydd wedi mabwysiadu o'r blaen a gofalwyr maeth presennol.

Wrth wneud y newidiadau, a amlinellir ymhellach isod, y bwriad yw:

- y bydd y broses o ystyried darpar fabwysiadwyr ar gyfer plentyn penodol o'u teulu eu hunain a phobl gysylltiedig yn symud ymlaen yn gyflymach ac yn fwy effeithlon, gyda llai o oedi ac ansicrwydd i'r plentyn o ganlyniad i hynny.

- na fydd gobeithion a disgwyliadau darpar fabwysiadwyr, y mae'n amlwg na fydd eu cais yn llwyddo oherwydd anhawster amlwg a difrifol gyda'u cais, yn cael eu codi'n ormodol.

- y bydd gweithrediad cyffredinol y broses gymeradwyo yn cael ei symleiddio a'i gwneud yn fwy effeithlon, gan sicrhau arbedion i amser staff ac amser y panel wrth baratoi ac ystyried ceisiadau.

**Atgyfeirio at Gofrestr Fabwysiadu Cymru – plant (rheoliad 19A newydd)**

Mewnosodir rheoliad 19A newydd yn Rhan 3 o Reoliadau 2005 i osod gofyniad ar asiantaethau mabwysiadu i atgyfeirio manylion plentyn at y sefydliad sy'n cynnal y Gofrestr Fabwysiadu cyn gynted â phosibl a dim hwyrach nag un mis ar ôl y dyddiad yr awdurdodwyd yr asiantaeth fabwysiadu i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, onid oedd yr asiantaeth wedi nodi darpar fabwysiadwyr penodol y mae'n ystyried lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gyda hwy.

Bydd y rheoliad yn gwella cyflawnder yr wybodaeth sydd wedi'i storio ar y Gofrestr Fabwysiadu, fel y caiff plant eu paru â darpar fabwysiadwyr ar y cyfle

cyntaf posibl gan y bydd gwybodaeth yn cael ei hychwanegu a'i rhannu ledled Cymru mewn modd amserol.

**Cais i benodi swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAFCASS (rheoliad 20)**

Diwygir rheoliad 20 yn Rhan 3 i esbonio bod rhaid i asiantaeth fabwysiadu ofyn i swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAFCASS gael ei benodi i gael cydsyniad gan riant neu warcheidwad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn ei ofal dim ond pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn preswylio yng Nghymru a Lloegr.

**Personau sydd wedi'u hawdurdodi i fod yn dyst i gydsyniad i leoli ar gyfer mabwysiadu (rheoliad 20A newydd)**

Mewnosodir rheoliad 20A newydd yn Rhan 3 i'w gwneud yn ofynnol i asiantaeth fabwysiadu drefnu i berson awdurdodedig gael ei benodi i fod yn dyst i gydsyniad rhiant neu warcheidwad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn ei ofal pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn preswylio y tu allan i Gymru a Lloegr ac i restru'r personau hynny sydd wedi'u hawdurdodi i fod yn dyst i'r cydsyniad.

Bydd rheoliadau 20 ac 20A yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y gofynion o ran bod yn dyst i gydsyniad rhiant neu warcheidwad plentyn i leoli neu fabwysiadu'r plentyn hwnnw.

**<u>Proses dau gam</u>**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y broses dau gam newydd i gymeradwyo darpar fabwysiadydd, fel y'i nodir yn y Rhan 4 newydd o Reoliadau 2005, yn cynnwys y canlynol:

***Cam un – y broses cyn asesu***

Mae rheoliadau 21 i 27 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cam un o'r broses ac maent yn gymwys pan fo person wedi hysbysu asiantaeth fabwysiadu ei fod am fabwysiadu plentyn a bo'r asiantaeth wedi hysbysu'r person hwnnw ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu mewn cysylltiad â'r person hwnnw.

**Cynllun cam un darpar fabwysiadydd (rheoliad 22)**

Mae rheoliad 22 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu lunio cynllun ysgrifenedig, gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadydd, sydd i gynnwys gwybodaeth am rôl yr asiantaeth fabwysiadu a'r darpar fabwysiadydd ym mhroses cam un. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y cwnsela, yr wybodaeth a'r paratoad ar gyfer mabwysiadu sydd i'w darparu, y weithdrefn ar gyfer cynnal gwiriadau heddlu, manylion unrhyw hyfforddiant ac unrhyw amserlenni cymwys.

**Cofnod achos darpar fabwysiadydd (rheoliad 23)**

Mae rheoliad 23 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu sefydlu cofnod achos mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadydd ac yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y cofnod hwnnw, nad yw'r Rhan 4 bresennol yn ei phennu.

Mae'r cofnod achos yn ffordd o gasglu'r holl wybodaeth angenrheidiol ynghyd mewn un lle fel y gellir gweld cynnydd unrhyw bryd ac fel y gall rheolwr, gweithiwr cymdeithasol newydd ac yn y blaen godi'r achos mabwysiadu a'i ddeall ar unwaith.

**Tystysgrif Cofnod Troseddol (rheoliad 25)**

Mae rheoliad 25 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu gael tystysgrif cofnod troseddol manwl mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw aelod arall o aelwyd y darpar fabwysiadydd sy'n 18 oed neu drosodd.

**Gwybodaeth cyn asesu arall a phenderfyniad cyn asesu (rheoliadau 26 a 27)**

Mae rheoliad 26 yn nodi'r wybodaeth cyn asesu y mae rhaid i asiantaeth fabwysiadu ei chael ac mae rheoliad 27 yn darparu bod rhaid i asiantaeth fabwysiadu, gan ystyried yr wybodaeth honno, benderfynu a all y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu plentyn ac felly i fwrw ymlaen i gam dau. Rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw o fewn cyfnod o ddau fis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth fabwysiadu y darpar fabwysiadydd ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu ar ddechrau cam un. Serch hynny, caiff yr asiantaeth oedi gwneud y penderfyniad hwnnw pan fo wedi'i bodloni bod rhesymau da dros wneud hynny neu ar gais y darpar fabwysiadydd.

***Cam dau – y penderfyniad asesu***

Mae rheoliad 28 yn darparu bod cam dau yn dechrau pan fo'r darpar fabwysiadydd, yn dilyn penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu, wedi hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu o fewn chwe mis i'r penderfyniad hwnnw ei fod yn dymuno bwrw ymlaen i gam dau o'r broses gymeradwyo.

**Cynllun asesu darpar fabwysiadydd (rheoliad 29)**

Mae rheoliad 29 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu lunio cynllun ysgrifenedig, gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadydd, sydd i gynnwys gwybodaeth am y weithdrefn ar gyfer asesu addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn o dan gam dau.

**Adroddiad darpar fabwysiadydd (rheoliad 30)**

Mae rheoliad 30 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu gael gwybodaeth benodol am y darpar fabwysiadydd a llunio adroddiad ysgrifenedig sy'n cynnwys gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd a theulu'r darpar

fabwysiadydd, iechyd y darpar fabwysiadydd, unrhyw wybodaeth berthnasol yn sgil y gwiriadau cyn asesu ac asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn[3]. Wrth asesu addasrwydd cwpl i fabwysiadu plentyn, rhaid i’r asiantaeth, yn ei hasesiad, roi sylw priodol i’r angen am sadrwydd a sefydlogrwydd yn eu perthynas. Os yw’r asiantaeth yn cael gwybodaeth benodol sy’n arwain at y farn bod y darpar fabwysiadydd yn annhebygol o gael ei ystyried yn addas i fabwysiadu plentyn, caiff lunio’r adroddiad a’i gyflwyno i’r panel mabwysiadu ar gyfer penderfyniad heb yr holl wybodaeth ofynnol am y darpar fabwysiadydd.

### Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu (rheoliad 30B newydd)

Mae rheoliad 30B newydd yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw’r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu o fewn pedwar mis i’r dyddiad y cafodd yr asiantaeth hysbysiad y darpar fabwysiadydd ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â’r broses asesu. Caiff yr asiantaeth oedi gwneud y penderfyniad hwnnw pan fo’r asiantaeth yn ystyried bod amgylchiadau eithriadol sy’n golygu na all wneud y penderfyniad o fewn yr amser hwnnw neu ar gais y darpar fabwysiadydd.

### Proses garlam (rheoliad 30DD ac Atodlen 4A newydd)

Mae rheoliad 30DD ac Atodlen 4A newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer proses garlam ar gyfer cymeradwyo mewn achosion penodol, sef pan fo asiantaeth fabwysiadu wedi’i bodloni bod y darpar fabwysiadydd yn rhiant maeth a gymeradwywyd neu wedi mabwysiadu plentyn mewn achosion penodol ar unrhyw adeg. Yn yr achosion hynny, rhaid i’r asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu o fewn pedwar mis i’r dyddiad y cafodd yr asiantaeth fabwysiadu hysbysiad y darpar fabwysiadydd ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â’r broses cyn asesu.

### Atgyfeirio at y Gofrestr Fabwysiadu – darpar fabwysiadwyr (rheoliad 30E newydd)

Mewnosodir rheoliad 30E newydd i osod gofyniad ar asiantaethau mabwysiadu i atgyfeirio manylion darpar fabwysiadwyr a gymeradwywyd at y sefydliad sy’n cynnal y Gofrestr Fabwysiadu cyn gynted â phosibl a dim hwyrach nag un mis ar ôl y penderfyniad eu bod yn addas i fabwysiadu plentyn, onid yw’r asiantaeth wedi nodi plentyn penodol i’w leoli gyda’r darpar fabwysiadydd hwnnw.

### Cynllun Paru Darpar Fabwysiadydd (rheoliad 31 newydd)

Mae rheoliad 31 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaeth fabwysiadu lunio cynllun ysgrifenedig, gan ymgynghori â darpar fabwysiadydd a gymeradwywyd,

[3] Darperir ar gyfer hyn yn Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol.

a fydd yn cynnwys gwybodaeth am ddyletswyddau'r asiantaeth mewn perthynas â lleoli ac adolygiadau.

## 5. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 3 Hydref 2018 a 9 Ionawr 2019 gan ofyn am farn ar y ddwy set newydd o reoliadau mabwysiadu: Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

Cafwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol ac ni chodwyd pryderon sylweddol ynghylch beichiau ychwanegol yn sgil y rheoliadau newydd.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad, mae pedwar mân newid wedi'u gwneud i'r ddeddfwriaeth, sef:

- diwygio'r gofyniad ar asiantaethau i atgyfeirio manylion y plentyn at y sefydliad sy'n cynnal Cofrestr Fabwysiadu Cymru cyn gynted â phosibl a dim hwyrach nag un mis ar ôl y dyddiad y penderfynodd yr asiantaeth y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu i cyn gynted â phosibl a dim hwyrach nag un mis ar ôl y dyddiad yr awdurdodwyd yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

- yn ystod cam un o'r broses cyn asesu, cyflwyno gofyniad i gynnal gwiriadau heddlu yn gliriach, gan nodi na chaiff asiantaeth fabwysiadu ystyried darpar fabwysiadydd (yn hytrach na pherson) yn addas i fabwysiadu plentyn os yw'r person hwnnw neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd wedi cyflawni trosedd benodedig (fel y'i nodir ym mharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 3).

- esbonio, os nad yw'r darpar fabwysiadydd yn hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno bwrw ymlaen i gam dau o'r broses asesu o fewn chwe mis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth y mabwysiadydd y gall fod yn addas i fabwysiadu, y bydd angen ail-gynnal cam un i'r graddau y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried yn angenrheidiol i benderfynu a yw'n parhau'n fodlon y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu.

- cynyddu'r cyfyngiad amser o 20 niwrnod i 40 niwrnod, o'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth fabwysiadu y darpar fabwysiadydd nad oedd yn addas i fabwysiadu plentyn, i'r mabwysiadydd gyflwyno sylwadau i'r asiantaeth neu wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad o'r penderfyniad gan banel adolygu annibynnol.

Mae manylion pellach am y broses ymgynghori i'w gweld yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi’i baratoi yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) ac mae wedi’i atodi yn Rhan 2.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gynnal mewn perthynas â gofynion cod asesiad effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Ers pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 Gweinidogion Cymru sydd bellach yn gyfrifol am y gwaith o wneud is-ddeddfwriaeth yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i ystyried effaith is-ddeddfwriaeth ar fusnes, y sector gwirfoddol, llywodraeth leol ac eraill ac ar ei ddyletswyddau statudol.

**7. Opsiynau**

**a) Proses Fabwysiadu Dau Gam yng Nghymru**

**Opsiwn 1:** *gwneud dim*
Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y parheir i ddilyn y broses bresennol ar gyfer cymeradwyo ac asesu mabwysiadwyr. O ganlyniad, bydd y broses o gymeradwyo darpar fabwysiadwyr yn parhau i gymryd mwy o amser nag y mae ei angen mewn rhai achosion, bydd yn parhau i fod yn swyddogaeth sy'n defnyddio llawer iawn o adnoddau ac sy'n fiwrocrataidd weithiau, a bydd yn parhau i fod yn anhyblyg. Yn hynny o beth bydd y broses hefyd yn parhau i lesteirio rôl darpar fabwysiadwyr.

Gall oedi o ran dod o hyd i deulu addas i fabwysiadu plentyn gael canlyniadau andwyol ar eu lles. Un o'r rhesymau dros yr oedi hwn yw'r gwahaniaeth rhwng nifer y mabwysiadwyr cymeradwy a nifer y plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu. Mae'r adborth a gafwyd gan asiantaethau yn awgrymu y gallai strwythur araf, digroeso a biwrocrataidd y broses gyfredol i'r rhai sydd eisiau mabwysiadu plentyn fod yn cyfrannu at y gwahaniaeth hwn, gan fod y broses gyffredinol yn atal darpar fabwysiadwyr rhag ymgysylltu â'r broses.

**Opsiwn 2:** *diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") i gyflwyno proses dau gam ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr*,

Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno proses gymeradwyo dau gam newydd gyda chyfnod cyfyngedig. Gan aros yn drwyadl, bydd yn caniatáu i ddarpar fabwysiadwyr gael eu cynnwys fwy yn y broses, a bydd yn fwy tryloyw gydag amserlenni cliriach. Bydd yn golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, y gall darpar fabwysiadwyr ddisgwyl aros ddim hwy na chwe mis i gael eu cymeradwyo fel mabwysiadwyr.

Bydd y weithdrefn ddiwygiedig yn cyflymu'r broses gymeradwyo gyffredinol o'r ymholiad cyntaf i'r asesiad, ac ar yr un pryd bydd yn helpu i gyflymu'r broses o baru darpar fabwysiadwyr â phlant. Bydd y broses newydd yn cynyddu nifer yr unigolion sy'n bwrw ymlaen drwy'r asesiad am fod y broses yn llai brawychus a biwrocrataidd, a bydd hynny hefyd yn helpu i leihau faint o amser mae plant yn aros i gael eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu gan deulu addas. Yn ogystal â lleihau'r amserlen, bydd y broses hefyd yn fuddiol i ddarpar fabwysiadwyr y

mae’n amlwg na fydd eu cais yn llwyddo oherwydd anhawster amlwg a difrifol gyda’u cais. Felly, bydd y broses yn lleihau’r posibilrwydd o godi eu gobeithion a’u disgwyliadau yn ormodol.

Bydd hefyd yn symleiddio’r broses gymeradwyo ac yn ei gwneud yn fwy effeithlon, a bydd hynny’n arwain at arbedion o ran amser staff ac aelodau’r panel wrth baratoi ac ystyried ceisiadau.

**b) Cofrestr Fabwysiadu Cymru**

**<u>Opsiwn 1</u>:** *gwneud dim*

Ar hyn o bryd mae asiantaethau mabwysiadu yn cyfeirio plentyn neu fabwysiadwr cymeradwy at Gofrestr Fabwysiadu Cymru hyd at dri mis ar ôl i’r asiantaeth gael awdurdod i leoli’r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu ar ôl cymeradwyo’r darpar fabwysiadwr fel un sy’n addas i fabwysiadu. Bydd yr opsiwn hwn yn golygu y bydd y broses yn parhau fel y mae.

Er bod hyn yn caniatáu amser i gysylltiadau lleol a rhanbarthol posibl gael eu hystyried cyn darparu’r wybodaeth hon yn genedlaethol drwy’r gofrestr, mae’r broses gyfredol yn rhwystro defnyddio’r gofrestr fel ffordd o chwilio am gydweddiad allanol prydlon pan nad oes modd dod o hyd i leoliad mewnol/lleol.

Gall oedi o ran dod o hyd i deulu addas i fabwysiadu plentyn achosi niwed parhaus. Mae’n hollbwysig fod plant yn cael eu paru cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi’r cyfle gorau iddynt ffynnu mewn amgylchedd teuluol diogel lle bydd eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu a lle gallant fwynhau’r un cyfleoedd ag unrhyw blentyn arall.

**<u>Opsiwn 2</u>**: *diwygio’r rheoliadau er mwyn mewnosod rheoliadau newydd 19A a 30G yn Rheoliadau 2005 i leihau’r terfynau amser presennol i asiantaethau mabwysiadu gyfeirio i’r Gofrestr Fabwysiadu yng Nghymru*.

Bydd yr opsiwn hwn yn gosod gofyniad ar asiantaethau mabwysiadu i gyfeirio plentyn i Gofrestr Fabwysiadu Cymru cyn gynted â phosibl ac yn ddim hwyrach na mis ar ôl y dyddiad y cafodd yr asiantaeth mabwysiadu ei hawdurdodi i leoli’r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu. Bydd hefyd yn gosod gofyniad ar asiantaethau i gyfeirio darpar fabwysiadwyr i’r Gofrestr Fabwysiadu cyn gynted â phosibl ac yn ddim hwyrach na mis ar ôl y dyddiad y penderfynodd yr asiantaeth fod y darpar fabwysiadwr yn addas i fabwysiadu plentyn. Yr arfer cyfredol yw hyd at dri mis.

**c) <u>Sefydlu ‘person awdurdodedig’</u>**

Mae rheoliad newydd 20A yn cael ei fewnosod i ddarparu ar gyfer achosion lle mae rhiant neu warcheidwad y plentyn yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr ac yn dymuno rhoi ei gydsyniad i leoli’r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o Ddeddf 2002 ac, yn ôl y digwydd, i lunio gorchymyn mabwysiadu o dan adran 20 o Ddeddf 2002. Yn yr achosion hyn, bydd yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu drefnu i benodi ‘person awdurdodedig’ i weithredu fel tyst ar gyfer

cydsyniad rhiant neu warcheidwad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn eu gofal. Byddai'r newid hwn, ynghyd â'r diwygiad i reoliad 20, yn nodi'n glir bod yn rhaid i asiantaeth mabwysiadu ofyn i swyddog achosion teuluol Cymru neu swyddog CAFCASS benodi swyddog i gael cydsyniad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn eu gofal dim ond pan fydd y rhiant neu'r gwarcheidwad yn byw yng Nghymru a Lloegr.

## 8. Costau a buddion

Mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad cost a budd o'r opsiynau ar gyfer y newidiadau a nodwyd yn adran 7.

### a) Proses Fabwysiadu Dau Gam yng Nghymru

**<u>Opsiwn 1</u>: gwneud dim** - *parheir i weithredu'r broses bresennol ar gyfer cymeradwyo ac asesu mabwysiadwyr*

**Costau:**

Awdurdodau lleol, ynghyd ag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol, sy'n recriwtio ac yn asesu darpar fabwysiadwyr.

Er mwyn amcangyfrif goblygiadau cost a budd y mesur polisi i awdurdodau lleol ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol rydym wedi amcangyfrif cost cymeradwyo o dan y broses bresennol. I wneud hyn, rydym wedi nodi'r gweithgareddau mewn gwasanaeth neu broses ac yna wedi cyfrifo amcangyfrif o gostau pob un.

Mae Tabl 1 yn dangos nifer yr oriau a gymerir ar gyfartaledd gan bob gweithiwr naill ai mewn Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol neu awdurdod lleol i gwblhau pob un o'r prif gamau yn y broses gymeradwyo gyfredol ar gyfer mabwysiadu. Y gweithwyr sy'n ymwneud yn bennaf â'r broses yw gweinyddwyr, Gweithwyr Cymdeithasol Mabwysiadu, Rheolwyr Tîm Mabwysiadu neu Uwch Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol a Phenderfynwr yr Asiantaeth.

**<u>Tabl 1: Amcan o'r amser a gymerwyd ar gyfer gweithgareddau/tasgau: proses asesu mabwysiadwyr gyfredol</u>**

| | Gweinyddwr / Cymorth Busnes | Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu | Rheolwr Tîm Mabwysiadu | Penderfynwr Asiantaeth |
|---|---|---|---|---|
| **CAM YMHOLIADAU** | | | | |
| Prosesu ymholiad i'r asiantaeth | 30 munud | | | |
| Rhoi gwybodaeth i'r ymholydd | | 30 munud | | |
| Digwyddiad/Sesiwn Gwybodaeth | 30 munud | 2.5 awr | | |
| Ymweliad Cychwynnol | | 4 awr | | |
| Proses fewnol i gytuno ar y camau | | | 30 munud | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| nesaf | | | | |
| **CAM CYMERADWYO** | | | | |
| Proses derbyn ceisiadau | 30 munud | | 30 munud | |
| Hyfforddiant cyn-mabwysiadu | 4 awr | [3 diwrnod] | | |
| Proses gwirio/geirdaon | 5 awr | 30 munud | | |
| Asesu darpar fabwysiadw[y]r | | 18 awr | | |
| PAR - ysgrifennu a rhannu â mabwysiadwyr | | 22 awr | | |
| Ymweliadau â geirdaon | | 11 awr | | |
| Sicrhau Ansawdd PAR[4] | | | 3 awr | |
| Proses/cofnodion y panel gweinyddol | 4 awr | | | |
| Panel Mabwysiadu (gan gynnwys SA gan Gynghorydd Proffesiynol) | | 45 munud | 2 awr | |
| Penderfyniad ar ôl y panel | | | | 2 awr |
| Gweinyddiaeth ar ôl cymeradwyo | 2 awr | | | |
| Goruchwylio gweithiwr | | 1 awr | 1 awr | |
| **CYFANSWM** | 15.5 awr | 53 awr | 6. 5 awr | 2 awr |

Tabl 1a: Costau cyflog cyfartalog mewn perthynas â'r rolau sydd wedi'u cynnwys wrth i staff awdurdod lleol ymgymryd â'r broses asesu gyfredol.

| Staff ALl | Cyflog Gros | Nifer yr Oriau fesul Cais | Cyfradd Ddyddiol | Cost yr awr | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddu Cymorth Busnes | £21,116 | 15.5 | £83.00 | £12.00 | **£186.00** |
| Gweithiwr Cymdeithasol | £36.876 | 53 | £148.00 | £21.00 | **£1,113.00** |
| Rheolwr Tîm | £42,683 | 6.5 | £169.00 | £24.00 | **£156.00** |
| ADM (Pennaeth Gwasanaeth) | £56,233 | 2 | £222.00 | £32.00 | **£64.00** |
| **Cyfanswm** | | | | | **£1,519.00** |

[4] Adroddiad Darpar Fabwysiadwyr

Tabl 1b: Costau cyflog cyfartalog mewn perthynas â'r rolau sydd wedi'u cynnwys wrth i staff Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol ymgymryd â'r broses asesu gyfredol.

| Staff VAA | Cyflog Gros | Nifer yr Oriau fesul Cais | Cyfradd Ddyddiol | Cost yr awr | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddu Cymorth Busnes | £26,999 | 15.5 | £107.00 | £15.00 | **£232.50** |
| Gweithiwr Cymdeithasol | £36,876 | 53 | £148.00 | £21.00 | **£1,113.00** |
| Rheolwr Tîm | 46,565 | 6.5 | £184.00 | £26.00 | **£169.00** |
| ADM (Pennaeth Gwasanaeth) | 57,000 | 2 | £225.00 | £32.00 | **£64.00** |
| **Cyfanswm** | | | | | **£1,578.50** |

Mae'r ffigurau yn nhabl 1a / b wedi'u seilio ar staff yr awdurdod lleol ac Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol yn ymgymryd â'r broses asesu mabwysiadu gyfredol am flwyddyn rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 fesul cais. Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar ddiwrnod gwaith 7 awr.

Mae Tabl 1a / b hefyd yn dangos yr amser mae pob gweithiwr wedi'i gymryd ar gyfartaledd naill yn yr Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol neu'r awdurdod lleol i gwblhau pob un o'r prif bwyntiau gweithredu o fewn y broses asesu gyfredol

**Opsiwn 2:** diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") i gyflwyno proses dau gam ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr.

Er mwyn cael amcangyfrif o oblygiad cost a budd y mesur polisi i awdurdodau lleol ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol rydym wedi amcangyfrif cost cymeradwyo o dan y broses newydd. I wneud hyn, rydym wedi nodi'r gweithgareddau mewn gwasanaeth neu broses ac yna wedi cael amcangyfrif o gostau pob un.

**Tabl 2: Amcan o'r amser a gymerwyd ar gyfer gweithgareddau/tasgau: proses dau gam**

Mae Tabl 2 yn dangos nifer yr oriau y rhagwelir y bydd yn ei gymryd ar gyfartaledd i bob gweithiwr naill ai mewn Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol neu awdurdod lleol i gwblhau pob un o'r prif gamau yn y broses gymeradwyo 2 gam newydd ar gyfer mabwysiadu. Y prif weithwyr sy'n ymwneud â'r broses yw gweinyddwyr, Gweithwyr Cymdeithasol Mabwysiadu, Rheolwyr Tîm Mabwysiadu neu Uwch Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol a Phenderfynwr yr Asiantaeth.

| | Gweinyddwr/ Cymorth Busnes | Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu | Rheolwr Tîm Mabwysiadu | Penderfynwr Asiantaeth |
|---|---|---|---|---|
| **CYN CAM UN** | | | | |
| Prosesu ymholiad i'r asiantaeth | 30 munud | | | |
| Rhoi gwybodaeth i'r ymholydd | | 30 munud | | |
| Digwyddiad/Sesiwn Gwybodaeth | 30 munud | 2.5 awr | | |
| Ymweliad Cychwynnol | | 4 awr | | |
| Proses fewnol i gytuno ar y camau nesaf | | | 30 munud | |
| **CAM UN** | | | | |
| Proses cofrestr buddiannau | 30 munud | | | |
| Hyfforddiant cyr mabwysiadu | 1 awr | [3 diwrnod] | | |
| Proses gwirio/geirdaon | 5 awr | | | |
| Proses pa penderfyniad i symud Gam 2 | | 30 munud | 30 munud | |
| Ymweliadau cyn y asesiad[5] | | 5.5 awr | | |
| Ymweliadau â geirdaor | | 4 awr | | |
| **CAM DAU** | | | | |
| Asesu darpa fabwysiadw[y]r | | 14 awr | | |
| Ymweliadau â geirdaon | | 7 awr | | |
| PAR - ysgrifennu a rhannu â mabwysiadwyr | | 22 awr | | |
| Sicrhau Ansawdd PAR | | | 3 awr | |
| Proses/cofnodion y panel gweinyddol | 4 awr | | | |
| Panel Mabwysiadu (gan gynnwys SA gan Gynghorydd Proffesiynol) | | 45 munud | 2 awr | |

[5] Lleihau nifer yr ymweliadau yn ystod yr asesiad yng Ngham 2

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Penderfyniad ar ôl y panel | | | | 2 awr |
| Gweinyddiaeth ar ôl cymeradwyo | 2 awr | | | |
| Goruchwylio gweithiwr | | 1 awr | 1 awr | |
| **CYFANSWM** | 13.5 awr | 54 awr | 7 awr | 2 awr |

Tabl 2a: Costau cyfartalog Staff Awdurdod Lleol sy'n ymgymryd â'r broses dau gam

| Staff ALl | Cyflog Gros | Nifer yr Oriau fesul Cais | Cyfradd Ddyddiol | Cost yr awr | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddu Cymorth Busnes | £21,116 | 13.5 | £83.00 | £12.00 | **£162.00** |
| Gweithiwr Cymdeithasol | £36.876 | 54 | £148.00 | £21.00 | **£1,134.00** |
| Rheolwr Tîm | 42,683 | 7 | £169.00 | £24.00 | **£168.00** |
| ADM (Pennaeth Gwasanaeth) | 56,233 | 2 | £222.00 | £32.00 | **£64.00** |
| **Cyfanswm** | | | | | **£1,528.00** |

Tabl 2b: Costau cyfartalog Staff Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol sy'n ymgymryd â'r broses dau gam

| Staff VAA | Cyflog Gros | Nifer yr Oriau fesul Cais | Cyfradd Ddyddiol | Cost yr awr | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddu Cymorth busnes | £26,999 | 13.5 | £107.00 | £15.00 | **£202.50** |
| Gweithiwr Cymdeithasol | £36,876 | 54 | £146.00 | £21.00 | **£1,134.00** |
| Rheolwr Tîm | 46,565 | 7 | £184.00 | £26.00 | **£182.00** |
| ADM (Pennaeth Gwasanaeth) | 57,000 | 2 | £225.00 | £32.00 | **£64.00** |
| **Cyfanswm** | | | | | **£1,582.50** |
| | | | | | |

Mae'r ffigurau yn nhabl 2a a 2b wedi'u seilio ar staff yr Awdurdod Lleol ac Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol yn ymgymryd â'r broses asesu dau gam mabwysiadu newydd am flwyddyn rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 fesul cais. Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar ddiwrnod gwaith 7 awr.

Mae Tabl 2ac a 2b yn nodi'r amser y rhagwelir y bydd pob gweithiwr yn ei gymryd ar gyfartaledd naill yn yr Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol neu'r awdurdod lleol i gwblhau pob un o'r prif bwyntiau gweithredu o fewn y broses asesu dau gam

***Costau Ychwanegol***
Darparwyd hyfforddiant ar y broses dau gam i ranbarthau mabwysiadu'r awdurdod lleol a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn ystod 2019, ac roedd wedi costio £4,050. Ariannwyd 50% gan Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru, a chafodd y 50% a oedd yn weddill ei rannu'n gyfartal ar draws y rhanbarthau mabwysiadu yng Nghymru. Roedd Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru hefyd wedi comisiynu AFA Cymru i gynhyrchu Canllaw Arfer Da ar gyfer rhanddeiliaid mabwysiadu ar y broses dau gam, a oedd wedi costio £3,850. Costau suddedig yw'r rhain. Doedd yr asiantaethau mabwysiadu rhanbarthol na'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ddim wedi mynd i gostau pontio eraill.

Gallai fod cost ddichonol yn gysylltiedig â chynhyrchu, cyhoeddi a gweithredu Cod Ymarfer ar gyfer y newidiadau. Gan fod canllaw arfer da wedi'i gynhyrchu ar gyfer ymarferwyr yn y sector, bydd swyddogion yn adolygu'r sefyllfa 6 mis ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym i ganfod a oes angen Cod Ymarfer hefyd.

Mae'r costau staff o gynhyrchu, cyhoeddi a gweithredu'r ddogfen dros gyfnod o 6 mis ac amcangyfrifir y bydd yn 15,654 gan dybio un gwas sifil MB1 yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos am 6 mis ac 1 gwas sifil MB2 yn gweithio 1 diwrnod yr wythnos am 6 mis.

Mae costau staff Llywodraeth Cymru sydd wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'u seilio ar Gostau Band Cyflog Tîm Gweithrediadau'r Gwasanaethau Canolog. Mae'r costau cyflog gros yn cynnwys: cyflog; a chyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr.

**Tabl 1**

| Llywodraeth Cymru Staff | Cyflog Net | Cyflog Gros | Cyfradd Ddyddiol | Cyfradd fesul awr | Cost am 6 mis | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| MB2 | £36,500 | £46,993 | £188.24 | £26.00 | £4,517 | **£4,518** |
| MB1 | £45,850 | £57,977 | £232.00 | £32.00 | £2,712 | **£11,136** |
| **Cyfanswm** | | | | | | **£15,654** |

**Crynodeb Cost**
Mae'r tablau uchod yn dangos y bydd cynnydd bychan mewn costau staff yn gysylltiedig ag ymgymryd ag asesiad llawn yn y broses dau gam. Mae'n anodd rhagweld cyfanswm yr arbedion costau yn sgil y broses asesu dau gam

newydd am nad yw pob mabwysiadwr sy'n cyflwyno ceisiadau i fabwysiadu yn cwblhau'r broses asesu lawn, ac mae'r broses newydd yn debygol o effeithio ar adegau tynnu allan. Er mwyn cyfrifo amcan o'r arbedion costau rhaid cael gwybodaeth ynghylch pryd mae pobl yn gadael y broses asesu gyfredol, a gwybodaeth ynghylch pryd y bydd pobl yn gadael y broses asesu newydd. Dydy data lefel genedlaethol ddim yn cael ei gasglu am y broses gyfredol, a does dim modd gwybod am y broses newydd oherwydd nid yw wedi'i rhoi ar waith hyd yma.

Serch hynny, rhagwelir y bydd arbedion costau yn y broses gyffredinol. Bydd asiantaethau'n darparu mwy o wybodaeth i fabwysiadwyr yn nes at ddechrau'r broses, a bydd hyn yn galluogi darpar fabwysiadwyr sydd ddim yn addas i ddarganfod hynny yn gynt. Disgwylir i'r rhai nad ydynt yn addas i fabwysiadu sylweddoli drostynt eu hunain nad hwn yw'r maes iddyn nhw, a byddant yn tynnu allan o'r broses yn nes at ddechrau'r asesiad. Bydd y broses yn galluogi'r asiantaeth i roi gwybod yn gynt i ddarpar fabwysiadwyr na fydd eu cais yn llwyddiannus (cam 1). Felly, bydd llai o adnoddau'r asiantaeth yn cael eu defnyddio arnynt.

**Buddion:**
Fel y nodwyd yn barod, disgwylir i'r broses asesu dau gam lawn alluogi mynd ati i ddarganfod mabwysiadwyr anaddas yn gynharach. Bydd hyn yn osgoi codi gobeithion a disgwyliadau darpar fabwysiadwyr yn ormodol a fyddai, o dan y broses flaenorol, wedi mynd drwy'r broses gyfan cyn cael gwybod nad oeddent yn addas. Bydd hefyd yn creu arbedion i Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac awdurdodau lleol oherwydd bydd llai o adnoddau'n cael eu defnyddio i asesu'r ymgeiswyr nad ydynt yn symud ymlaen i asesiad Cam 2.

Mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer yr asesiadau y bydd asiantaethau'n eu cynnal. Mae'r broses asesu mabwysiadu newydd sydd â therfyn amser yn ceisio cynyddu nifer yr unigolion sy'n cyflwyno cais ac yn bwrw ymlaen drwy'r broses. Serch hynny, does dim modd rhagweld y cynnydd yn nifer yr asesiadau a gynhelir o ganlyniad i ddiwygio'r broses.

Mae newidiadau i'r broses asesu a chymeradwyo'n tueddu i arwain at gynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n gwneud cais i fabwysiadu. Drwy leihau'r bwlch rhwng nifer y plant sy'n disgwyl i gael eu paru â theulu a nifer y teuluoedd sy'n cael eu cymeradwyo i'w mabwysiadu, nod y mesur yw lleihau'r oedi o ran dod o hyd i gydweddiad addas ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gyda chynlluniau ar gyfer mabwysiadu. Yn yr un modd, nod y newidiadau deddfwriaethol (sy'n rheoli'r ffordd mae asiantaethau mabwysiadu yn defnyddio'r gofrestr) yw gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn ehangu'r chwiliad am deuluoedd cyn gynted ag y bo modd os nad oes cydweddiad addas ar gael yn lleol. Felly, bydd y ddau fesur yn lleihau'r amser y bydd plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu yn aros mewn gofal. Disgwylir i hyn arwain at arbedion costau i awdurdodau lleol gan fod tystiolaeth yn dangos bod cost cynnal lleoliad mabwysiadu'n llai na chost cadw plentyn mewn gofal maeth.

**b) Cofrestr Fabwysiadu Cymru**

**Cost:**

**<u>Opsiwn 1</u>:** *Gwneud dim*

Ni fydd cost ychwanegol i ddarparwyr o ganlyniad i'r opsiwn hwn.

**<u>Opsiwn 2</u>**: *diwygio'r rheoliadau er mwyn galluogi rheoliadau newydd 19A a 30G i leihau'r terfynau amser presennol i asiantaethau mabwysiadu gyfeirio i'r Gofrestr Fabwysiadu yng Nghymru.*

Disgwylir y bydd ychydig o oblygiadau o ran adnoddau yn perthyn i'r opsiwn hwn oherwydd rhagwelir y bydd cynnydd bach yn nifer y mabwysiadwyr cymeradwy a phlant sy'n cael eu cyfeirio i'r Gofrestr Fabwysiadu ar y cychwyn o ganlyniad i'r gofyniad i ychwanegu manylion cyn pen mis. Serch hynny, rhagwelir y bydd hyn yn sefydlogi wrth i'r broses newydd gael ei sefydlu. Ar hyn o bryd, dydy asiantaethau ddim yn gallu rhoi amcan o'r cynnydd yn nifer y ceisiadau i ddiweddaru o ganlyniad i'r ddyletswydd. Fodd bynnag, maent wedi awgrymu na welir cynnydd sylweddol.

Bydd y diwygiad hwn yn gwneud yn siŵr bod asiantaethau'n ehangu'r chwiliad am deuluoedd cyn gynted ag y bo modd os nad oes cydweddiad addas ar gael yn lleol. Felly, bydd hyn yn lleihau'r amser y bydd plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu yn aros mewn gofal. Disgwylir i hyn arwain at arbedion costau i awdurdodau lleol gan fod tystiolaeth yn dangos bod cost cynnal lleoliad mabwysiadu'n llawer llai na chost cadw plentyn mewn gofal maeth.

**Buddion**

Bydd y newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol wneud defnydd llawn a phrydlon o'r Gofrestr Fabwysiadu, fel un ffordd sydd ar gael o ddod o hyd i gydweddiad allanol, pan nad oes modd dod o hyd i leoliad mewnol neu leol. Bydd hefyd yn gwella darpariaeth ac ehangder yr wybodaeth sy'n cael ei chadw ar y Gofrestr.

Ni fydd y newid hwn yn effeithio ar unrhyw agweddau eraill ar ddyletswyddau cyfredol yr asiantaethau mabwysiadu i gofnodi a chyfeirio gwybodaeth o'r fath. Drwy osod terfyn amser o fis, bydd yn sicrhau bod pob plentyn sy'n aros am leoliad mabwysiadu a phob darpar fabwysiadwr cymeradwy ledled Cymru yn cael eu cynnwys ar y Gofrestr cyn gynted â phosibl. Byddai hyn yn lleihau'r amser y bydd plant yn aros drwy roi mynediad ar unwaith i system genedlaethol lle gellir edrych ar yr amrediad mwyaf posibl o gysylltiadau o bob rhan o Gymru a (lle y bo yn briodol) rhannau eraill o'r DU.

Bydd y newidiadau'n arwain at hyd yn oed mwy o gydweddiadau parhaus, o ansawdd da yn cael eu gwneud. Yn ogystal, bydd yn galluogi i'r system gyfan gael ei rheoli mewn ffordd fwy effeithiol, er enghraifft, drwy nodi patrymau o anghenion penodol ymysg y plant neu grwpiau o frodyr a chwiorydd, a allai alw am ddulliau recriwtio pwrpasol ar gyfer mabwysiadwyr.

**c) Sefydlu 'person awdurdodedig'**

Darparwyd ar gyfer y gofyniad hwn eisoes yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu (Cyfarwyddyd Ymarfer 14.10) ac mae'r diwygiadau'n rhoi'r cyfarwyddiadau hyn ar sail statudol.

- pan fydd rhiant neu warcheidwad y plentyn yn byw yng Nghymru a Lloegr, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ofyn i Cafcass benodi swyddog i fod yn dyst i gydsyniad y rhiant/gwarcheidwad i leoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu neu lunio gorchymyn mabwysiadu i'r dyfodol;

- pan fydd y rhiant neu'r gwarcheidwad yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu drefnu penodi person awdurdodedig i fod yn dyst i gydsyniad y rhiant/gwarcheidwad;

**Cost**
Does dim cost yn gysylltiedig â'r newidiadau hyn am fod yr asiantaethau mabwysiadu yn cynnal y sefyllfa bresennol.

**Buddion**
Does dim buddion ychwanegol yn gysylltiedig â'r newidiadau hyn am fod yr asiantaethau mabwysiadu yn cynnal y sefyllfa bresennol.

**Yr Opsiynau a Ffefrir**
Caiff yr opsiynau a ffefrir fel yr amlinellir uchod eu gweithredu fel a ganlyn:

a) Cyflwyno Proses Fabwysiadu Dau Gam - Opsiwn 2

Gall oedi o ran dod o hyd i deulu addas i fabwysiadu plentyn achosi niwed parhaus. Mae ymchwil yn dangos bod angen i blant ffurfio ymlyniadau neu berthynas gadarn a sefydlog gydag un neu ddau brif ofalwr er mwyn datblygu'n gorfforol, yn emosiynol ac yn ddeallusol. Ar hyn o bryd, mae mwy o blant mewn gofal maeth yn disgwyl i gael eu mabwysiadu na mabwysiadwyr. Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn bydd angen i ni recriwtio mwy o ddarpar fabwysiadwyr ac mae angen i ni wneud mwy i'w hannog a'u helpu i fabwysiadu plant sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Un o'r materion rydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw yw'r potensial am oedi yn y system fabwysiadu ac effaith hynny ar les plant. Drwy gyflwyno proses sy'n llai biwrocrataidd ac sy'n cynnwys y mabwysiadwr yn fwy, rhagwelir y bydd mwy o fabwysiadwyr yn dod ymlaen i sicrhau bod dewis o ran paru ar gyfer y plant sydd angen lleoliad mabwysiadol yn ogystal â chynyddu argaeledd ar gyfer y rhai sy'n aros hiraf. Bydd y broses mabwysiadu dau gam newydd hefyd yn creu arbedion i'r asiantaethau drwy fod yn symlach ac angen llai o adnoddau.

b) Lleihau'r terfyn amser presennol i asiantaethau mabwysiadu gyfeirio i Gofrestr Fabwysiadu Cymru i hyd at fis – Opsiwn 2

Mae'n hollbwysig fod asiantaethau'n ymdrechu i baru plant a mabwysiadwyr yn y ffordd sydd fwyaf amserol. Bydd y newid i'r gofrestr yn gwella ehangder yr wybodaeth sy'n cael ei chadw arni, er mwyn dod o hyd i gydweddiadau cyn gynted â phosibl.

c) Sefydlu 'person awdurdodedig'

Darparwyd ar gyfer y gofyniad hwn eisoes yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu (Cyfarwyddyd Ymarfer 14.10) ac mae'r diwygiadau'n rhoi'r cyfarwyddiadau hyn ar sail statudol.

## 9. Ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng 3 Hydref 2018 a 9 Ionawr 2019, yn gofyn am farn ar ddwy gyfres newydd o reoliadau Mabwysiadu: Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2). Mae'r rheoliadau newydd hyn yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005. Yn gryno, byddant yn:

- Cyflwyno proses dau gam ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr.

- Ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu gyfeirio manylion darpar fabwysiadwyr i Gofrestr Fabwysiadu Cymru ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, a manylion plant mae'r asiantaeth wedi cael awdurdod i'w lleoli ar gyfer mabwysiadu, o fewn uchafswm cyfnod o un mis ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud

- Ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu drefnu i benodi 'person awdurdodedig' i weithredu fel tyst ar gyfer cydsyniad rhiant neu warcheidwad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn eu gofal, pan fydd y rhiant neu'r gwarcheidwad yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr (gan gynnwys dramor).

- Parhau i'w gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu, wrth asesu addasrwydd cwpl i fabwysiadu plentyn, roi ystyriaeth briodol i'r angen am sefydlogrwydd a pharhauster yn eu perthynas (darperir ar gyfer hyn yn Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2).

Cafwyd wyth ymateb i'r ymgynghoriad, a bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd dau ddigwyddiad cenedlaethol. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 6 Tachwedd yn Stadiwm SWALEC, Caerdydd a chynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ar 8 Tachwedd ym Mhrifysgol Glyndŵr.

Nod y sesiynau oedd annog rhanddeiliaid i ymateb a galluogi'r rhai oedd yn bresennol i wneud y canlynol:

- cael trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol drafft a'r newidiadau allweddol y bydd yn eu rhoi ar waith;
- gwirio eu dealltwriaeth o'r cynigion a chael eglurhad, os bydd angen;
- ystyried y goblygiadau posibl i'w rôl a'r sefydliad

Yn gyffredinol roedd y niferoedd a oedd wedi gwneud cais am leoedd ar gyfer y digwyddiadau'n gadarnhaol, gydag oddeutu 40 cynrychiolydd yng Nghaerdydd a 25 yn Wrecsam. Cynrychiolwyd amrywiaeth o sefydliadau o'r sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a'r trydydd sector, gan gynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaethau fel Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru; Cymdeithas Plant Dewi Sant; Barnardo's Cymru ac Adoption UK.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol, ac ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol ynghylch baich ychwanegol yn deillio o'r rheoliadau newydd.

Gwnaed mân newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar ôl rhoi sylw pellach i'r ymatebion ymgysylltu ac ymgynghori, sy'n cynnwys:

- diwygio'r gofyniad ar asiantaethau i gyfeirio manylion y plentyn i'r sefydliad sy'n cynnal Cofrestr Fabwysiadu Cymru cyn gynted â phosibl a dim mwy nac un mis ar ôl i'r asiantaeth benderfynu y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu i cyn gynted â phosibl a dim mwy nac un mis o'r dyddiad y cafodd yr asiantaeth awdurdod i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu,

- Yn ystod cam cyntaf y broses cyn asesu, rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i gynnal gwiriadau'r heddlu yn gliriach, ac wedi nodi na fydd asiantaeth mabwysiadu yn gallu ystyried darpar fabwysiadwr (yn hytrach na pherson) yn addas i fabwysiadu plentyn os ydy'r person hwnnw neu unrhyw aelod dros 18 oed o aelwyd y person hwnnw wedi cyflawni trosedd benodol (fel y nodwyd ym mharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 3).

- egluro os nad ydy'r darpar fabwysiadwr yn dymuno rhoi gwybod i'r asiantaeth mabwysiadu ei fod am fwrw ymlaen i gam dau o'r broses asesu o fewn chwe mis o'r dyddiad mae'r asiantaeth yn hysbysu'r mabwysiadwr y gallai fod yn addas ar gyfer mabwysiadu, yna bydd angen ail-gynnal cam un fel y mae'r asiantaeth mabwysiadu yn ystyried yn angenrheidiol i weld a yw'n parhau i fod yn fodlon y gallai'r darpar fabwysiadwr fod yn addas i fabwysiadu,

- cynyddu'r terfyn amser o 20 diwrnod i 40 diwrnod o'r dyddiad y rhoddodd yr asiantaeth mabwysiadu wybod i'r darpar fabwysiadwr nad yw'n addas i fabwysiadu plentyn er mwyn i'r mabwysiadwr gyflwyno sylwadau i'r asiantaeth neu wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o'r penderfyniad.

## 10. Asesu'r Gystadleuaeth

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch 'oes/nag oes' neu 'ie/na' os gwelwch** |

| | **yn dda** |
|---|---|
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o’r farchnad? | Oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 20% o’r farchnad? | Oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd gyfran o leiaf 50% o’r farchnad? | Oes |
| **C4**: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio’n sylweddol fwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na |
| **C5**: Ydy’r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Na |
| **C6**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer darpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na |
| **C7**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch ar gyfer darpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na |
| **C8**: Ydy’r sector yn cael ei ddosbarthu gan newid technolegol cyflym? | Na |
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch? | Na |

Mae’r prawf hidlo’n dangos nad yw’n debygol y bydd y rheoliad yn cael unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth; felly, ni chynhaliwyd asesiad manwl.

Nid ydym yn credu bod angen cynnal asesiad o'r gystadleuaeth ar gyfer y Rheoliadau hyn oherwydd ni fyddant yn effeithio ar y sector busnes mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.

**11. Adolygu ar ôl gweithredu**

Gall oedi yn y system fabwysiadu achosi niwed parhaus i blant agored i niwed a gallai eu rhwystro rhag cael cariad a sefydlogrwydd teulu newydd.

Prif nod Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yw cynyddu nifer y teuluoedd sy’n mabwysiadu drwy weithredu proses sy’n llai biwrocrataidd, yn cymryd llai o amser ac yn llai anhyblyg ar gyfer darpar fabwysiadwyr.

Cydnabyddir ei bod hi’n anodd cynnal asesiad o’r broses asesu mabwysiadu dau gam newydd. Ni fydd y dadansoddiad wedi’i seilio ar gostau gweithredu’r broses newydd yn unig, ond bydd hefyd yn edrych ar y manteision i awdurdodau lleol, Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol a’r teuluoedd a phlant sy’n gysylltiedig â'r broses fabwysiadu.

Bydd darpariaeth ar gyfer nifer o ddulliau adrodd allweddol a fydd yn cael eu cyflwyno i fonitro’r holl newidiadau a ddaw i rym o ganlyniad i ddiwygio’r rheoliadau. Bydd y rhain yn cynnig tystiolaeth glir i lywio’r adolygiad ôl-

weithredu a chanfod pa mor llwyddiannus yw'r broses newydd o ran cyflawni ei nodau. Mae'r dulliau adrodd yn cynnwys y canlynol:

- Adborth blynyddol gan ddarparwyr gwasanaeth
- Adborth blynyddol gan Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru.
- Adborth blynyddol gan awdurdodau lleol
- Bydd swyddogion yn monitro gweithredu'r Rheoliadau hyn ar ôl y dyddiad dod i rym ar 1 Ebrill 2020